Cynhaliwyd cyfarfod or Cyngor ar 26ain o Ionawr 2022 am 7.30 or gloch yn festri y capel. Yn bresennol oedd Generys Roberts, Helen Jones, Eryl Evans (cadeirydd) Llyr Jones, Wyn Jones, Medwyn Roberts y cynghorydd Peter Lewis a Carol Humphreys. Cafwyd ymddiheuriadau gan Gethin Jones.

Cadarnhawyd bod y cofnodion blaenorol yn gywir.
Codi or cofnodion
**Ffensio y Cae Chwarae** nid yw y gwaith wedi ei gychwyn y clerc i wneud ymoliadau.
**Llygod Mawr** – dim adrodd yn ol ar y sefylfa wedi bod ers y cyfarfod diwethaf.
**Coeden Dolig** – nid oedd coeden wedi ei gosod eleni oherwydd diffyg cyflenwyd trydan – y Cyngor i brynnu goleuadau bartris at flwyddyn nesaf.

Datgan diddordeb. – Neb.

**Gohebiaeth**
**Ymddiriedolaeth Addysgol Cerrig y Drudion** llythyr yn gofyn am gyfraniad - paswiyd i gyfrannu £100.00.

**Ysgol Cerrig y Drudion** - llythyr yn gofyn am gyfraniad tuag at gostau bws i fynd i Langrannog yn mis Ebrill pasiwyd i gyfrannu £200.00.

**Ty Gobaith** - llythyr yn gofyn am gyfraniad – pasiwyd i gyfrannu £100.00.

**Ambiwlans Awyr Cymru** – llythyr yn diolch am ein cyfraniad.

**HSBC**

**Tan Gwyllt –** Anfoneb gan Med iw dalu am y tan gwyllt £343.98 – pasiwyd iw dalu.

**Dwr Cymru** Anfoneb dwr y toiledau £50.08 wedi ei dalu drwy DD.

**Cyngor B Sirol Conwy** – Anfoneb am les y toiledau £1.00 wedi ei dalu drwy DD.

**Unllais Cymru –** Anfoneb o £30.00 am gwrs hyfforddiant i Helen Jones – pasiwyd iw dalu.

**Cyngor B Sirol Conwy** – Precept ola y flwyddyn £1600.00

**Unrhyw fater arall**
**Goliau-**pasiwyd i gysylltu eto efo Myfyr Tyn Celyn i osod y goliau ar y cael Pel droed.

**Asesiad Risg Cyngor Bro** wedi ei gwbwl hau ac wedi ei cymeradwyo ai harwyddo gan y Cadeirydd.
**Asesiad Risg Mynwentydd** wedi ei gwbwl hau ac wedi cymeradwyo ai harwyddo gan y Cadeirydd.

**Y Gro** – pasiwyd i gychwyn gwneud ymoliadau ar gynllunio lle chwarae ir plant ar dir y Gro. Ac yna ceisio am grant or gronfa Brenig.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.30.
Cyfarfod nesaf Mis Mawrth 2022.